

## **Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 10 yn gynhwysol.**

### **1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**

Yn Bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Iwan Hywel, Daryl Leeworthy, Suzanne Samuel, Caroline Davies, Stephen Nicholls, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Gareth Cork, Jenni Jones-Annetts, Chris Franks, Gayle Hudson, Dafydd Rhys, David Elis-Williams; Cathy Clark (trwy gyswllt Skype). Roedd cworwm yn y cyfarfod.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd, Cecilia Forsythe (Swyddog Cyflwyno'r Cwricwlwm, De Orllewin Cymru a'r Canolbarth) a thri dysgwr – ar gyfer cofnod 2 yn unig.

Ymddiheuriadau: Julie Cook, Gerry Jenson, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Guy Wallace Smith, Nick Taylor.

### **2. Cyflwyniad y Dysgwyr a Chyflwyniadau**

Cyflwynodd Cecilia Forsythe dair menyw oedd yn ddysgwyr o ardal Y Trallwng a oedd wedi astudio Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) am hyd at 12 awr yr wythnos gyda ni. Dywedodd bob un ohonynt ychydig amdany'n nhw eu hunain, eu gwreiddiau yng Ngwlad Pwyl neu Groatia, sut roedd dysgu Saesneg wedi eu cynorthwyo yn eu bywydau, i integreiddio i gymdeithas Cymru/Prydain, a galluoedd aelodau eraill o'u teuluoedd o ran Saesneg. Er nad oedd gan unrhyw un ohonynt gynlluniau cadarn ar gyfer dilyniant o ran addysg, soniodd Cecilia Forsythe fod llwybrau teilwredig ar gyfer datblygiad yn bodoli trwom ni, gan gynnwys un myfyriwr cyfatebol a oedd wedi symud ymlaen i astudio am radd y Brifysgol Agored yn ddiweddar. Diolchwyd i bob un ohonynt am eu cyfraniad, a gadawsant y cyfarfod.

Yna cyflwynodd Daryl Leeworthy ei hun. Hwn oedd ei gyfarfod cyntaf ar y Cyngor ers cael ei ethol i sedd De Ddwyrain Cymru a oedd yn wag yn dilyn ymddiswyddiad Heather Willbourn. Ymhlith pethau eraill, ef oedd tiwtor **Seren** (mynediad Rhyd-grawnt) yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Fe wnaeth y rheiny a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain yn eu tro, gan gynnwys Cathy Clark trwy'r cyswllt fideo â'i chartref.

### **3. Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 a materion yn codi**

Cymeradwywyd cofnodion trafodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd yn Iard y Cowper yng Nghaerdydd, yn gofnod cywir. Trafodwyd pedwar pwynt ymhellach, sef:

**Cofnod 2 – setliad dyfarnu cyflogau 2018:** roedd yn bleser cyhoeddi y bu cytundeb bellach â'r undebau llafur ynglŷn â hyn, ac ar amrediad y cynyddrannau a gynigiwyd yn unol â mathau o swyddi a graddau. Byddai'r taliadau cynyddol wedi'u hôl-ddyddio i fis Awst 2018 yn cael eu gwneud fel rhan o daliad cyflog y mis cyfredol. Byddai Llywodraeth Cymru yn talu swm y setliad hwn heb yr 1% cyntaf, yr oedd yn rhaid ei

gael o goffrau'r sefydliad ei hun. Ond nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai cyfraniadau ariannol cyfatebol yn dod ohono yn y dyfodol.

**Cofnod 3 – Arolygiad Estyn, Ionawr 2019:** Roedd Mark Baines wedi cyfarfod â Penny Lewis (ein prif arolygydd) unwaith eto, a'r bwriad oedd cael cyfarfod ffurfiol pellach ar ddiwedd 2019/dechrau 2020 i edrych ar ddatblygiadau a wnaed wrth fynd i'r afael â'r tri argymhelliad a fyddai'n ymddangos yn adroddiad terfynol Estyn. Byddai'r adroddiad hwnnw yn gyfrinachol nes iddo ymddangos fel dogfen ar wefan Estyn, felly ni fu modd ei drafod yn fanwl yn y Fforymau Rhanbarthol y tymor hwn. Roedd y ffaith fod tri argymhelliad yn unig yn arwydd cadarnhaol, yn enwedig gan eu bod yn rhai teg heb fod yn orheriol, a dylai ymateb cyhoeddus AOC|ALW iddynt fod yn barod ar gyfer dyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Thema gyson trwy gydol yr adroddiad fyddai ar brofi **effaith** ein hymyriadau addysgol ar ddysgwyr.

**Cofnod 4 - diweddariad am safle Coleg Harlech:** bu oedi wrth gwblhau'r gwerthiant oherwydd y gwiriadau a gynhaliwyd gan ein cyfreithwyr, Eversheds Sutherland, yn dangos nad oedd y ramp a'r lifft i roi mynediad i bobl anabl a ychwanegwyd y tu allan i adeilad y theatr/awditoriwm, ynghyd â'r man parcio i'r anabl yno, wedi cael eu cofnodi'n gywir gyda'r Gofrestrfa Tir pan gawsant eu hadeiladu ar ddiwedd yr 20<sup>fed</sup> ganrif. Roedd Datganiad o Wirionedd wedi cael ei lofnodi i gadarnhau'r ffaith eu bod yn briodol i berchnogaeth yr adeilad, ond roedd cyfreithiwr y prynwr hefyd wedi mynnu cofrestrriad ôl-weithredol, yn ogystal ag yswiriant indemniad i gynnwys y mater cyn cyfnewid contract a throsglwyddo unrhyw arian. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn adlewyrchu unrhyw ymbwyllo tuag at brynu'r safle ar ran Mr Leslie Banks Irvine: yn wir, roedd yn ymweld â'r eiddo yn rheolaidd ac roeddem ni eisoes wedi rhoi set o allwedd i'r eiddo iddo - ystyriwyd bod hyn yn gam rhesymol, at ddiobenion diogeledd ar wahân i unrhyw beth arall. Bu rhywfaint o fyfyrion ynglŷn â phwy oedd ar fai ynglŷn â'r ffaith fod mater Cofrestrfa'r Tir wedi ymddangos mor hwyr yn yr holl broses. O ganlyniad, nid oedd y datganiad cyhoeddus/datganiad i'r wasg yn gysylltiedig â'r gwerthiant wedi cael ei ryddhau eto.

**Cofnod 6 – Adroddiad y Prif Weithredwr, Ionawr 2019:** Holodd Chris Franks sut roeddem ni bellach yn delio'n strategol â'r ffaith nad oedd yna Weinidog Addysg Bellach dynodedig, a bod cyfrifoldeb o'r fath yn nwylo'r Gweinidog Addysg, sef Kirsty Williams. Adroddwyd ei bod hi wedi mynychu digwyddiad WCVA lle bu AOC|ALW yn arwain ar drafod addysg oedolion, a lle roedd Kirsty Williams wedi gwneud sylwadau cadarnhaol, ond wedi gwrthod cyfarfod â ni ddwywaith ar sail un-i-un yn yr wythnosau diwethaf i drafod cyfeiriad addysg oedolion yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog wedi bod yn un o ddsbarthiadau Hanes ein cangen yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful. Ym marn Darren Leeworthy, ymddangosodd fod ganddi ddiddordeb mawr yn y cysylltiadau rhwng newidiadau i'r cwricwlwm i ddisgyblion o dan 16 oed ac addysg oedolion. Roedd hefyd yn ymddangos ei bod yn rhoi pwyslais ar yr arwyddair 'Cymru fel Cenedl Ail Gyfle' o ran cyfleoedd addysgol, mewn prifysgolion ac mewn manau eraill. **O ystyried bod gan Ken Skates gyfrifoldebau bellach am addysg yn y gweithle, roedd achos dros gyfarfod ag ef yn y cyswllt hwn yn y dyfodol hefyd.** Erbyn hyn, roedd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd/Is-gadeiryddion wedi cyfarfod ag 15 Aelod Cynulliad, a hyn wedi bod yn eithaf buddiol. Ond eto, soniodd mwy nag un aelod o'r Cyngor hefyd fod angen amlwg i fuddsoddi mwy o adnoddau mewn marchnata ein hunain ac mewn codi ein proffil mewn unrhyw ffordd y gallwn.

Mewn perthynas â dau bwynt pellach yn yr un cofnod hwnnw, esboniwyd bod cyfeiriad at ddatganoli addysg undebau llafur yn cyfeirio at y ffaith fod TUC Cymru bellach yn defnyddio modiwlau a ddyfarnwyd trwy Agored Cymru yn hytrach na NOCN yn Lloegr; a bod y swydd codi arian yr oedd y broses recriwtio ar ei chyfer yn mynd rhagddi o hyd, er bod teitl y swydd wedi newid i 'Swyddog Datblygu Busnes'.

#### 4. Rhaglen arfaethedig ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Wrecsam ar 23 Mawrth 2019, gan gynnwys penderfyniadau a diwygiadau

**Cymeradwywyd yr amserlen arfaethedig ar gyfer y digwyddiad yn ddiweddarach yn y mis**, er y gallai ychydig mwy o amser ar gyfer yr egwyl ginio fod o gymorth. Ar y 3 chynnis, roedd angen gwneud mân ddiwygiad i eiriad yr un cyntaf ('*democratiaeth addysgedig*'). Codwyd cwestiwn ynglŷn â chrybwyll dysgwyr gwrywaidd yn benodol yng Nghynnis 3, a rhoddodd Dafydd Rhys esboniad am hyn. Gofynnwyd bod y cynigiwr yn ystyried newid y ferf 'dweud wrth' i 'galw ar' y Cyngor yn hynny o beth. Roedd pob un o'r tri chynnis yn dderbyniol ym marn y Cyngor, gan nad oeddent yn torri egwyddorion nac amcanion y sefydliad, a'r farn gyffredinol oedd bod y Cyngor o blaid y teimladau a fynegwyd ym mhob un o'r tri chynnis, ac felly nid oedd angen iddo gynnig rhai o'i aelodau i siarad yn erbyn unrhyw un ohonynt. **Byddai Stephen Thomas yn cysylltu ag aelodau'r Cyngor i holi a oedd unrhyw un ohonynt eisiau siarad o blaid y cynigion ar ran y Cyngor.**

#### 5. Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2019

Esboniodd Kathryn Robson fod y gostyngiad sylweddol yn niferoedd cyffredinol cyfansymiau ein dysgwyr a oedd wedi digwydd mewn dwy flwyddyn yn olynol yn adlewyrchu'r modd yr oedd y sefydliad yn cael ei ariannu'n gynyddol, gyda mwy o bwyslais ar gyrsiau hwy, a mwy o botensial i gynorthwyo dysgwyr â'u dilyniant, heb wanhau ein hethos cyffredinol.

Yna disgrifiodd Mark Baines y sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â chyllid ar gyfer 2019-20 a thu hwnt, yn dilyn cyfarfod gydag un o uwch weision sifil Llywodraeth Cymru yr wythnos flaenorol. Byddem yn cael cynnis £1 miliwn y flwyddyn fel arian pontio am dair blynedd, ac ar ddiwedd y cyfnod hwn, byddai rhaid i ni sicrhau darpariaeth addysgol graidd ar gyfer y cyllid hwnnw. Hefyd, byddai £100,000 arall bob blwyddyn i ymestyn ein haddysg celfyddydau breiniol anachrededig, fel y dangosir yn ein canghennau, yr oedd eu perthnasedd wedi cael ei ddeall yn well gan gynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaethau adeiladol hefyd yn ymwneud â phwysigrwydd y cynnydd prinder yn ein model darpariaeth – yr oedd angen ei ystyried yn wahanol i'r hyn a welwyd mewn colegau AB – a chais i ni gyfiawnhau hyn ymhellach yn ysgrifenedig, fel y gellid ei adfer yn rhannol o fewn cyfanswm yr arian pontio.

Cynigiodd Toni Schiavone y dylid gosod hyd at 20% o'r arian pontio tuag at weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) ar gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriodd paragraffau 63 i 67 yn yr Adroddiad at fentrau presennol a oedd yn anelu at ymateb i'r gwendidau cydnabyddedig yn y maes hwnnw, a rhoddodd Dafydd Rhys grynoded o ddatblygiadau yn ei rôl a ffurfiwyd yn ddiweddar oedd yn berthnasol i hynny, ac o gyfarfod diweddar gyda CCC ar faterion o'r fath. Er bod David Elis-Williams yn gefnogol i ddymuniadau Toni Schiavone, heb ymrwymiad ysgrifenedig pendant ar y dyraniad terfynol, byddai'n well cynnwys y mater yn y blaenoriaethau a'r esboniadau oedd yn cael eu paratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Mark Baines. **Cytunwyd y dylai Michelle Kerswell roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyngor am hyn, gan gynnwys cynnydd o ran recriwtio tiwtoriaid cyfrwng Cymraeg cymwys, gan ei fod yn fater mor dyngedfennol.** Credai Caroline Davies y gellid gwrthdroi'r flaenoriaeth honno trwy hyfforddi pobl leol fel yr hyfforddwyr, er mwyn ehangu'r gweithlu posibl yn y maes hwnnw. Tra'n derbyn y dylid rhoi blaenoriaeth i ehangu nifer y cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd y Cadeirydd o'r farn mai Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ddylai benderfynu sut yn union y byddai'r flaenoriaeth honno'n cael ei rhoi ar waith. Diolchwyd i Mark Baines am ei waith eirioli hyd yma.

Tynnodd Kathryn Robson sylw at ein henw da ym maes leuenctid, Cymuned a Gwaith Chwarae: roedd Rachel Burton, oedd yn gyfrifol am y maes hwnnw, hefyd yn arwain ar yr hyfforddiant iechyd meddwl a

lles a oedd yn digwydd cyn bo hir. Rhagwelwyd y byddai'r gwelliannau diweddar mewn telerau ac amodau a'r datblygiad proffesiynol parhaus a gynigir i diwtoriaid, yn ei dro, yn arwain at fwy o her iddynt yn eu perfformiad yn y dyfodol. Wrth ateb cwestiwn ynglŷn â pham roedd y ffigurau Cyflawni Cenedlaethol gryn dipyn yn is yn eu cyfansymiau cyflawni hyd yma na rhai rhanbarthau daearyddol, esboniwyd nad oedd ei gyrsiau mor strwythuredig yn ôl tymhorau academiaidd, ac y byddai ei gyfanswm cyffredinol yn dal i fyny erbyn diwedd y flwyddyn. **Roedd yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol hefyd, yn dilyn y cwestiwn 'felly beth?' a ofynnwyd yn gyson gan Estyn, ar gyfer rhannau o Adroddiad y Prif Weithredwr yn ymwneud ag addysg ac yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, i geisio ateb y thema honno yn gyson.**

## **6. Adolygiad o ailstrwythuro'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh), Chwefror 2018**

Siaradodd Stephen Thomas am y papur a ddosbarthwyd ar y mater hwn, a oedd yn nodi'r cefndir i'r penderfyniad ym mis Chwefror 2018 i sefydlu Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys tri o bobl, ac adolygu'r drefn honno ar sail profiad 12 mis ar ôl ei roi ar waith. Atgoffodd aelodau am y prif themâu a dadleuon o blaid ac yn erbyn y newid flwyddyn yn gynharach, disgrifiodd y modd yr oedd y swyddi wedi esblygu o ran teitlau a chyfrifoldebau dros y flwyddyn ddiwethaf, a chyfeiriodd y Cyngor at y sylwadau ysgrifenedig a gafwyd gan un aelod o'r Cyngor a chan dri aelod o Dîm Rheoli'r Coleg. Darparodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Chwilio ym mis Medi 2018 ragor o ddeunydd cefndir, yn yr un modd ag y gwnaeth fersiwn wedi'i chywiro o'r strwythur sefydliadol presennol, a osodwyd ar y bwrdd.

Siaradodd y tri aelod o'r UDRh nesaf. Soniodd Kathryn Robson am natur or-weithredol yr UDRh pan ddechreuodd hi yn hwyr yn 2016, ac am y cydlynid ychwanegol a ddarparwyd yn sgil creu'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn fwy diweddar. Gwnaeth Cath Hicks a Mark Baines sylwadau ar y drefn fwy effeithlon ac amserol o ran gwneud penderfyniadau a oedd bellach yn bodoli, a'r strwythur rheolwyr canol effeithiol a oedd wedi datblygu ochr yn ochr â'r newidiadau o ran haenau uwch. Cadarnhawyd nad oedd gan unrhyw aelod o'r UDRh fwy na 6 o gydweithwyr yr oeddent yn rheolwr llinell uniongyrchol arnynt. O ran y diffyg profiad addysgu a dysgu ar lefel yr UDRh, roedd llawer o hyfforddiant wedi cael ei wneud i helpu'r addasiad, ac roedd Rheolwr y Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn ganolog o ran ategu'r gwaith hwn (gan gynnwys cefnogi'r ymateb i arolygiad Estyn) ac yn mynychu cyfarfodydd yr UDRh yn rheolaidd. Roedd profiad yn y meysydd hynny ymhlith swyddogion y Cyngor ar yr UDA wedi bod yn ddefnyddiol hefyd. Roedd aelod o'r Cyngor yn credu bod swyddfa Caerdydd, o leiaf, yn lle hapusach nag a fu o'r blaen, ac roedd y farn a fynegwyd gan yr undebau llafur yn awgrymu bod hynny'n wir ar gyfer swyddfeydd eraill hefyd. (Gadawodd y 3 aelod o'r UDRh y cyfarfod ar yr adeg hon.)

Cafodd aelodau o'r Cyngor eu sicrhau gan yr atebion a ddaeth i law am y bwlch canfyddedig mewn arbenigedd yn y cwricwlwm/addysg, ac er y bu risg mai dyna fyddai dirnadaeth pobl o'r tu allan o ailstrwythuro'r UDRh, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn wedi digwydd mewn gwirionedd. Roedd consensws nad oedd unrhyw broblemau dybryd ar y lefel uwch reolwyr a bod y morâl yn gyffredinol wedi gwella. Roedd angen talu mwy o sylw, ac o bosibl defnyddio mwy o adnoddau dynol, mewn meysydd eraill. Pwysleisiwyd marchnata a chyfathrebu unwaith eto yn hynny o beth gan fwy nag un aelod o'r Cyngor (roedd enghraifft a ddyfynnwyd o gyfrif Twitter byw yn y sefydliad a oedd yn crybwyll y WEA o hyd): er bod absenoldeb aelod allweddol o staff am gyfnod estynedig yn ffactor cyfrannol, y farn oedd fod angen rhoi mwy o bwyslais strategol ar y meysydd cysylltiedig hynny. Roedd pwynt arall yn ymwneud â diogelu: nid oedd yn glir ble roedd cyfrifoldeb am hynny yn y strwythur sefydliadol – a allai olygu dim ond newid teitl swydd/rôl, ond o ystyried canfyddiad Estyn ynglŷn â rhaglen **Prevent**, gallai fod yn flaenoriaeth strwythurol hefyd.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at y swydd gysylltiedig a grëwyd flwyddyn yn gynharach, sef Rheolwr y Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Roedd yn bwysig yn y cyfnod adolygiad 12 mis hwn i atgoffa'r swyddog, Michelle Kerswell, am lefel cymhwysedd yn y Gymraeg a oedd yn ddisgwyliedig ohoni ar ôl dwy flynedd yn y swydd. Teimlwyd bod y bwriadau cadarnhaol y tu ôl i greu'r rôl honno yn dwyn ffrwyth, ac roedd angen adolygu'r rôl yn ffurfiol yn y dyfodol agos hefyd.

Wedi iddynt ddychwelyd i'r ystafell, dywedwyd wrth aelodau'r UDRh am y prif gasgliadau o'r drafodaeth yn eu habsenoldeb. **Cadarnhaodd y Cyngor ei gefnogaeth ar gyfer parhau â strwythur yr Uwch Dîm Rheoli fel yr oedd wedi'i ffurfio ar hyn o bryd, o ran ffurf a maint, am y dyfodol y gellir rhagweld; a gofynnodd fod yr UDRh yn rhoi sylw priodol i'w sylwadau ar faterion strategol eraill a materion gysylltiedig (o bosibl) â staffio.**

## **7. Cyfrifon Rheoli, Awst 2018 – Ionawr 2019**

Roedd y rhain yn cynnwys chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2018-19, ac roedd adolygiad ffurfiol o'r sefyllfa wedi cael ei gynnal yn fewnol yn seiliedig arnynt. Ffioedd safle Harlech a chostau ailstrwythuro na ragwelwyd yn wreiddiol oedd yn bennaf gyfrifol am warged llai nag a gyllidebwyd ar hyn o bryd. Roedd y cyllid cyfalaf o £293,000 y cyfeirir ato yn y nodiadau yn cynnwys arian tuag at TG ac adeiladau/ystadau. Dywedodd Mark Baines nad oedd unrhyw gronfa ariannol wrth gefn, wedi'i chlustnodi fel y cyfryw, wedi'i chynnwys yn y cyfrifon yn y flwyddyn ariannol hon nac mewn rhai blaenorol.

## **8. Cofnodion Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2019**

Dywedodd Caroline Davies (y diolchwyd iddi am gadeirio'r cyfarfod hwn, yn absenoldeb parhaus Cadeirydd y Pwyllgor) y bu'r cyfarfod yn gynhyrchiol, a bod lle amlwg wedi cael ei roi i ddiogelu yn ei drafodaethau, yn yr un modd ag yng nghyfarfodydd y Grŵp Diogelu, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yr oedd hi'n aelod ohono. Nododd y Cyngor gynnwys y cofnodion.

## **9. Adborth ar gyfarfod y Cyngor**

Dywedodd Cathy Clark nad oedd hi wedi cael ei rhwystro'n amhriodol gan y ffaith nad oedd darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael iddi ar gyfer y cyfraniadau cyfrwng Cymraeg. Atgoffwyd aelodau y byddai'r dyddiad ym mis Gorffennaf hefyd yn ddiwrnod cynllunio strategol a fyddai'n cael ei gynnal mewn un lleoliad yn unig, fel a ddigwyddodd yn 2018.

## **10. Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd nesaf y Cyngor, sef:**

- Dydd Gwener, 17 Mai: Glynebwy
- Dydd Iau, 18 Gorffennaf: Cyffordd Llandudno – gan gynnwys sesiwn Cynllunio Strategol ychwanegol

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Camau a gytunwyd	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 3	Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 a materion yn codi	O ystyried bod gan Ken Skates gyfrifoldebau am addysg yn y gweithle erbyn hyn, roedd achos dros gyfarfod ag ef yn y cyswllt hwn yn y dyfodol hefyd.	KR / John Graystone	Mai 2019
Cofnod 4	Rhaglen arfaethedig ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Wrecsam ar 23 Mawrth 2019, gan gynnwys penderfyniadau a diwygiadau	Cymeradwywyd yr amserlen ar gyfer y digwyddiad yn ddiweddarach yn y mis. Byddai Stephen Thomas yn cysylltu ag aelodau'r Cyngor i holi p'un a oedd unrhyw un ohonynt eisiau siarad o blaid y cynigion ar ran y Cyngor.	ST	Mawrth 2019
Cofnod 5	Adroddiad y Prif Weithredwr, Mawrth 2019	Dylai Michelle Kerswell ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Cyngor ar ehangu'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cynnydd wrth recriwtio tiwtoriaid cyfrwng Cymraeg cymwys.  Yn dilyn y cwestiwn 'felly beth?' a ofynnwyd yn gyson gan Estyn, dylai'r rhannau o Adroddiad y Prif Weithredwr sy'n ymwneud ag addysg ac yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, geisio ateb y thema honno yn gyson.	KR / MK  KR / MK	Mai 2019  Mai 2019
Cofnod 6	Adolygu ailstrwythuro'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh), Chwefror 2018	Cadarnhaodd y Cyngor ei gefnogaeth ar gyfer parhau â strwythur yr Uwch Dîm Rheoli fel yr oedd wedi'i ffurfio ar hyn o bryd, o ran ffurf a maint, am y dyfodol y gellir rhagweld; a gofynnodd i'r UDRh roi sylw priodol i'w sylwadau ar faterion strategol eraill a materion gysylltiedig (o bosibl) â staffio.	KR	Mai 2019